

Disgrifiadau swydd a hyfforddiant y cynrychiolwyr cwrs

Beth ydyn ni'n ei olygu?

Cynrychiolwyr cwrs (cynrychiolwyr) yw un o feysydd mwyaf datblygedig partneriaeth myfyrwyr drwy'r sector, felly dylid eu hyfforddi a'u paratoi'n effeithiol ar gyfer eu rolau.

Bydd darparu disgrifiadau digonol o'r rôl i'r dysgwyr cyn iddynt ystyried sefyll yn sicrhau eu bod yn deall yr

hyn sydd ynghlwm wrth fod yn gynrychiolydd cwrs.

Mae darparu hyfforddiant ar ôl iddynt gael eu hethol yn hanfodol os ydych am sicrhau bod nifer uchel o fyfyrwyr yn parhau a sicrhau lefel uchel o ymgysylltu gydol y flwyddyn.

Dylid hyfforddi a pharatoi cynrychiolwyr cwrs ar gyfer eu rolau.

Pam mae'n werth chweil?

Bydd rhoi'r adnoddau cywir i'ch cynrychiolwyr i allu cyflawni eu rolau'n effeithiol yn golygu bod modd i'ch system gynrychiolaeth ddatblygu a datblygu'n llwyfan cynaliadwy ar gyfer llais y dysgwr. Cam pwysig arall i gyflawni'r nod hwn yw rhoi'r wybodaeth briodol i'r staff i helpu'r cynrychiolwyr. Bydd manteision system weithio mewn partneriaeth i'w gweld drwy'r sefydliad:

Cynrychiolwyr Cwrs

- Ennill sgiliau trosglwyddadwy a magu hyder
- Potensial ar gyfer datblygiad personol
- Dylanwadu ar y sefydliad
- Cael gwybodaeth a all helpu gyda chyflogadwyedd

Corff ehangach y myfyrwyr

- Grym i greu newid yn y sefydliad, fel bod eu lleisiau'n cael eu cynrychioli
- Cael eu hysbrydoli gan eu cyfoedion i ymgymryd â'r rôl eu hunain

Sefydliad a staff

- Bydd y staff sydd wedi cael hyfforddiant ar fanteision llais y dysgwr a rôl cynrychiolwyr cwrs yn ymwneud yn fwy â'r system
- Gwell cymorth i gynrychiolwyr myfyrwyr
- Gwella'r berthynas rhwng dysgwyr a'r staff
- Datblygiadau yn y sefydliad o ganlyniad i fewnbwn gan lais y dysgwr
- Nifer uchel o gynrychiolwyr yn parhau gydol y flwyddyn os ydynt yn deall y manteision hirdymor

Ble i ddechrau

Fel arfer, bydd ysgrifennu swydd ddisgrifiad yn helpu i ddylanwadu ar yr hyn y byddwch yn ei gynnwys yn eich hyfforddiant. Er enghraifft, os mai un o ddisgwyliadau'r rôl yw mynychu cyfarfodydd, mae'n bosib y byddwch am hyfforddi'ch cynrychiolwyr ar ymddygiad mewn cyfarfodydd. Felly, rydym yn awgrymu mynd i'r afael â'r swydd ddisgrifiad yn gyntaf.

Swydd Ddisgrifiad

Mae paratoi dysgwyr ar gyfer y rôl yn gam pwysig i sicrhau bod eu brwdfrydedd a'u hymroddiad yn parhau.

colli

byddant yn fwy tebygol o gwblhau'r prosiect.

Dylai swydd ddisgrifiad cynrychiolwyr cwrs esbonio'r rôl i unrhyw ddarpar ymgeiswyr. Mae Coleg Sir Gâr yn darparu eu swydd ddisgrifiad, i'w gweld yn adran adnoddau'r ddogfen hon, ar ôl dethol y cynrychiolwyr. Dyma enghraifft ardderchog o swydd ddisgrifiad. Mae swydd ddisgrifiadau'n wych i'w defnyddio yn ystod proses yr etholiad ei hun hefyd fel ffordd o hysbysebu'r rolau ac annog myfyrwyr i gynnig eu hunain.

Mae paratoi dysgwyr ar gyfer y rôl yn gam pwysig i sicrhau bod eu brwdfrydedd a'u hymroddiad yn parhau gydol y flwyddyn. Os nad ydynt yn gwybod union ddyletswyddau'r rôl, mae'n bosib y byddant yn diddordeb dros amser. Ar y llaw arall, os byddant yn deall o'r cychwyn

Mae'n adnodd hysbysebu rhagorol hefyd, os caiff ei eirio mewn ffordd sy'n dangos natur ymgysylltu a gwerthfawr y rôl. **Mae cynrychiolwyr cwrs brwdfrydig yn bwysig wrth ddatblygu system y cynrychiolwyr cwrs**, gan eu bod yn fwy tebygol o ysbrydoli eu cyfoedion. Os na fydd y cynrychiolwyr yn deall cyfrifoldebau'r rôl ac os byddant yn colli diddordeb, gall hyn effeithio'n negyddol ar y nifer ohonynt a fydd yn parhau.

Dylid cynnwys o leiaf prif ddyletswyddau'r rôl yn y swydd ddisgrifiad, ond hefyd gellir cynnwys gwybodaeth ar y mathau o faterion y gellir eu codi (fel y gwelwyd yn enghraifft Coleg Sir Gâr), cyfeiriad cychwynnol at gymorth, dyddiadau unrhyw gyfarfodydd, ac unrhyw awgrymiadau defnyddiol o ran bod yn gynrychiolydd llwyddiannus.

Dylech gynnal hyfforddiant cychwynnol i gyd-fynd â hyn ar ôl ethol eich cynrychiolwyr.

Dan do

Dylai hyfforddiant cychwynnol ar gyfer eich cynrychiolwyr gynnwys yr wybodaeth angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu rolau. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth fel sut, pryd a pham y dylent gasglu adborth gan eu cyfoedion, at bwy y dylid bwydo hwn, unrhyw bwyllgorau neu gynghorau y maent yn eistedd arnynt, ac ati. Dylai'r hyfforddiant cychwynnol hwn drafod y pethau sylfaenol fel bod y dysgwyr yn deall holl elfennau hanfodol bod yn gynrychiolydd. Mae llawer o golegau'n darparu hyn eisoes, a byddant yn **cynnal sesiynau hyfforddi dros sawl diwrnod i sicrhau nad oes rhaid i fyfyrwyr gollu gwersi** .

Darparu rhagor o hyfforddiant ar gyfer datblygiad personol eich cynrychiolwyr.

Y tu hwnt i hyn, anogir darparu rhagor o hyfforddiant ar gyfer datblygiad personol eich cynrychiolwyr. Bwriad hwn fyddai gwella eu hyder yn y rôl, rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu sgiliau newydd, a gwella effeithiolrwydd system y cynrychiolwyr cwrs yn gyffredinol.

Gallai modiwlau hyfforddi posib gynnwys pynciau fel sgiliau cyfarfod, sut i gynnal ymgyrch a delio â straen. Mae pob un o'r rhain wedi'u darparu gan Wise Cymru yn ein cynhadledd flynyddol ar gyfer

cynrychiolwyr cwrs. Gweler rhai o'r sleidiau a ddefnyddiwyd mewn cynadleddau blaenorol ar ein gwefan, yn yr adran adnoddau ar y ddogfen hon.

Hefyd, ceir taflen hyfforddiant enghreifftiol gan Brifysgol Plymouth. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol wrth eich helpu i ddatblygu eich deunydd hyfforddi eich hun.

Bydd dysgwyr yn fwy tebygol o fynychu hyfforddiant os yw'n rhywbeth y maent wedi gofyn amdano.

Un o'r meysydd heb ei grybwyll yn flaenorol gan Wise, er ei fod wedi ei godi sawl gwaith, yw cyfryngau cymdeithasol. Os caiff eu defnyddio'n briodol, dyma declyn sy'n gallu bod yn effeithiol iawn wrth ymgysylltu â dysgwyr yn system y cynrychiolwyr. Gall helpu i gasglu adborth a lledaenu unrhyw ganlyniadau. Dylid bod canllawiau clir, fodd bynnag, ar yr hyn y dylid defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar ei gyfer. Mae un o'r adnoddau eraill yn y gyfres hon yn canolbwyntio ar gyfathrebu a brandio, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Rydym yn argymhell eich bod yn holi'ch cynrychiolwyr ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei ddysgu. Gallwch roi opsiynau iddynt mewn arolwg neu drafod syniadau yn agored yn ystod cyfarfodydd. Byddant yn fwy tebygol o fynychu'r hyfforddiant ac ymddiddori ynddo os yw'n rhywbeth y maent wedi gofyn amdano.

Gall hyfforddiant fod yn rhan o gynllun gwobrwyo, sy'n helpu i sbarduno cynrychiolwyr i wneud mwy yn eu rôl. Os oes gwahanol lefelau o hyfforddiant, o sylfaenol i ddatblygiad personol, gallech greu system sy'n annog cynrychiolwyr i weithio drwy'r hyfforddiant bob tymor.

Yn ddelfrydol, dylai eich hyfforddiant grybwyll amrywiaeth o bynciau gydol y flwyddyn, wedi'u teilwra i'r hyn sydd ei angen ar eich dysgwyr. Bydd hyn yn rhoi cymorth iddynt yn ystod eu cyfnod fel cynrychiolydd, a'r gobaith yw y bydd **mwy o gynrychiolwyr yn parhau ac y bydd mwy o ymgysylltu yn gyffredinol**.

Hyfforddiant staff

Er ei bod yn hanfodol paratoi eich cynrychiolwyr er mwyn cael strwythur llwyddiannus cynrychiolwyr cwrs, mae'n bwysig hyfforddi'r staff hefyd. **Mae deall rôl y cynrychiolwyr, sut gellir a dylid rhoi cymorth iddynt, ac effaith gyffredinol llais y dysgwr, yn rhan hanfodol o greu partneriaeth.**

Does dim angen i'r hyfforddiant fod yn rhy ffurfiol, ac ni ddylai greu unrhyw waith ychwanegol i'r staff. Yn y bôn, dylai ddarparu gwybodaeth am sut gall y staff ryngweithio â'r cynrychiolwyr i helpu'r dysgwyr a'r sefydliad i wneud y mwyaf o'r rôl. Er enghraifft, gellid gofyn i'r tiwtoriaid helpu i hyrwyddo cyfnod yr etholiad. Dylid rhoi gwybod i'r staff, sy'n eistedd ar unrhyw fyrddau gyda chynrychiolwyr, pam mae'r cynrychiolydd yno, beth yw eu rôl, a sut dylid eu cynnwys.

Darparu gwybodaeth am sut gall staff helpu'r dysgwyr a'r sefydliad.

Astudiaeth Achos: Cynrychiolwyr Dosbarth mewn 6 cham

Aeth Grŵp Llandrillo Menai ati i hyfforddi eu cynrychiolwyr cwrs mewn ffordd newydd ar ôl cael adborth nad oedd eu sleidiau ar ffurf darlithoedd yn effeithiol. Holwyd eu cynrychiolwyr ynglŷn â'r hyn roedd angen iddynt ei ddysgu, a tharodd y dysgwyr ar 'Cynrychiolwyr Dosbarth mewn 6 cham' (mae dolen i'r camau yn yr adran Adnoddau). Roedd y camau syml hyn yn cyfathrebu'r wybodaeth hanfodol yr oedd ei hangen ar y cynrychiolwyr, heb eu drysu.

Datblygwyd y chwe cham gyda chymorth Undeb y Myfyrwyr, a chafwyd adborth gwych gan ddysgwyr. Mae hon yn enghraifft wych o sut gall cynnwys myfyrwyr yn y broses ddatblygu'ch hyfforddiant arwain at ganlyniadau da.

Crynodeb

Dyma gamau syml a all wneud gwahaniaeth mawr i system y cynrychiolwyr cwrs yn ei chyfanrwydd. Mae'n bosib gwella cyfranogiad, lefelau dargadwedd, a boddhad cyffredinol eich cynrychiolwyr. Er bod gan lawer o golegau (os nad pob un) hyfforddiant eisoes, rydym yn gobeithio bod yr adnodd hwn wedi eich helpu chi i feddwl am y ffordd rydych yn cynnal eich hyfforddiant a sut mae eich dysgwyr yn elwa ohono.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Wise Cymru (manylion cysylltu isod).

Adnoddau

- [Enghraifft o swydd ddisgrifiad cynrychiolydd cwrs gan Goleg Sir Gâr](#)
- [Cynrychiolwyr Dosbarth mewn 6 cham](#)
- [Sleidiau hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr cwrs](#)
- [Taflen hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr cwrs gan Brifysgol Plymouth](#)
- [Gwefan hyfforddi cynrychiolwyr cwrs sparqs](#)
- [Sesiynau Hyfforddi Cynrychiolwyr TSEP](#)

Jessica Rumble,
Ymgynghorydd Prif / Lead Consultant
jessica.rumble@nus-wales.org.uk

Charlotte West,
Ymgynghorydd / Consultant
charlotte.west@nus-wales.org.uk